**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our Ref/Ein Cyf: MA/JMHSC/2397/25

Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr
Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau GIG Cymru ac Awdurdodau Iechyd Arbennig

6 Hydref 2025

Annwyl Gadeiryddion a Phrif Weithredwyr,

Yn gynharach eleni, nodais fy mwriad i gynnal cyfarfod atebolrwydd i'r cyhoedd â phob sefydliad iechyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Bydd y cyfarfodydd hyn, ochr yn ochr â'r cyfarfodydd rheolaidd yr wyf yn eu cael â Chadeiryddion y GIG, yn elfen bwysig o sut y mae Gweinidogion Cymru yn dwyn y GIG i gyfrif am gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynrychioli'r cam cyntaf allweddol yn fy mhenderfyniad i sicrhau mwy o dryloywder i'r cyhoedd o ran ein trefniadau atebolrwydd.

Bydd y cyfarfodydd yn canolbwyntio ar gyflawni gweithredol yn ystod y flwyddyn a byddant yn cwmpasu'r cyflawniadau yn erbyn eich cynllun, eich sefyllfa a'ch rhagolygon ariannol, ansawdd a diogelwch, a'r risgiau i gyflawni. Mae rhagor o fanylion i'ch helpu i baratoi'n effeithiol ar gyfer y cyfarfodydd hyn ynghlwm wrth y llythyr hwn.

Cynnal cyfarfodydd sy'n rhyngweithiol, ac a fydd yn cael eu cefnogi gan bapur tystiolaeth ysgrifenedig dwyieithog a gyflwynir o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod, yw fy mwriad. Bydd agenda a phecyn data yn cael eu dosbarthu cyn pob cyfarfod. Mae amserlen ddrafft ar gyfer y cyfarfodydd (mae rhai o'r dyddiadau dal heb eu cadarnhau hyd yma) ynghlwm yn Atodiad A.

Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, a bydd opsiwn hefyd i ragor o gynrychiolwyr ymuno o bell drwy MS Teams. Gallwn gynnig lle i hyd at 10 cynrychiolydd o'ch sefydliad i fod yn bresennol mewn person yn y lleoliad, a bydd yn bosibl i gynrychiolwyr eraill ymuno â'r cyfarfod o bell. Noder y bydd cyfieithu ar y pryd ar gael.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau at PerfformiadAcUwchgyfeirio@llyw.cymru

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A**

Cyfarfodydd Atebolrwydd i'r Cyhoedd – Amserlen ddrafft ar gyfer y cyfarfodydd

| **Sefydliad** | **Dyddiad** | **Amser** |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 23 Hydref 2025 | 15.00-17.00 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 13 Tachwedd 2025 | 16.00-18.00 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 20 Tachwedd 2025 | 16.30-18.30 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 27 Tachwedd 2025 | 13.00-15.00 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 4 Rhagfyr 2025 | 15.00-17.00 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 11 Rhagfyr 2025 | 13:00-15:00 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 18 Rhagfyr 2025 | 12.30-14.30 |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru | 5 Mawrth 2026 | 10.00-12.00 |
| AaGIC | 5 Mawrth 2026 | 15.00-17.00 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 12 Mawrth 2026 | 10.00-12.00 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 12 Mawrth 2026 | 12.30-14.30 |

**Atodiad B**

**Agenda ddrafft: Cyfarfodydd Atebolrwydd i'r Cyhoedd (2 awr o hyd)**

1. Cyllid, cynllunio ac uwchgyfeirio
    - Cyllid, cynaliadwyedd a gwerth
    - Cynnydd yn erbyn y gofynion isgyfeirio
    - Cynnydd yn erbyn y cynllun clinigol
    - Newid gwasanaethau
    - Gweithio'n rhanbarthol

2. Gwella mynediad i bawb
    - Gweithgarwch gofal a gynlluniwyd, canser a diagnostig
    - Gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan gynnwys llwybrau gofal gohiriedig
    - Iechyd meddwl
    - Ansawdd a diogelwch, profiad y claf ac adborth

3. Paratoi gwasanaethau ar gyfer y dyfodol
    - Gwella gwasanaethau iechyd menywod, mamolaeth ac iechyd meddwl
    - Atal afiechyd yn fwy effeithiol
    - Rhoi mwy o wasanaethau i mewn yn y gymuned
    - Gwireddu potensial technoleg ddigidol ac arloesedd

4. Cryfhau'r ffordd yr ydym yn rhedeg y GIG
    - Moderneiddio arweinyddiaeth a diwylliant
    - Gwydnwch – recriwtio/cadw a llesiant staff

5. Materion lleol y Bwrdd

**Atodiad C Trefniadaeth y cyfarfod**

Bydd disgwyl i sefydliadau'r GIG gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ddwyieithog o leiaf ddeg diwrnod gwaith cyn y cyfarfod, fel y nodir yn y templed sydd ynghlwm (Atodiad D).

Bydd papurau'r cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y sefydliad iechyd ac ar wefan Llywodraeth Cymru. Felly, rhaid darparu unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir i gefnogi'r cyfarfodydd hyn yn ddwyieithog.

Ni ddylid defnyddio sleidiau yn ystod y cyfarfod. Bydd y Bwrdd yn cael ei wahodd i gynnig trosolwg byr ar ddechrau pob eitem ar yr agenda. Bydd trywydd y cwestiynau yn seiliedig ar y dystiolaeth ysgrifenedig a'r trosolwg a ddarparwyd. Gallant hefyd gynnwys meysydd pryder sy'n cael eu codi gan Aelodau o'r Senedd ac aelodau o'r cyhoedd.

Ar ôl y cyfarfod, bydd recordiad ohono yn cael ei ryddhau ar wefan y sefydliad iechyd ac ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd llythyr yn cael ei anfon hefyd a fydd yn crynhoi ein trafodaethau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Bydd y llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â phapurau'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal drwy Microsoft Teams, a bydd disgwyl i 10 cynrychiolydd ar y mwyaf fesul sefydliad iechyd fod yn bresennol mewn person yn y cyfarfod. Fel gofyniad sylfaenol, awgrymir bod yr unigolion canlynol yn bresennol mewn person yn y cyfarfod – y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, yr Is-gadeirydd, cadeiryddion pwyllgorau perthnasol ac aelodau perthnasol o'r Tîm Gweithredol. Gall aelodau eraill ymuno o bell drwy MS Teams.

**Atodiad D  Papur Tystiolaeth - Templed**

**Papur Tystiolaeth y Cyfarfod Atebolrwydd i'r Cyhoedd**

| | |
|---|---|
| Sefydliad | |
| Dyddiad cyflwyno | |
| Dyddiad y cyfarfod | |
| Cwblhawyd gan | |

<table>
<tr><td><u>Cyllid, cynllunio ac uwchgyfeirio</u><ul><li>Cyllid, cynaliadwyedd a gwerth</li><li>Cynnydd yn erbyn y gofynion isgyfeirio</li><li>Cynnydd yn erbyn y cynllun clinigol</li><li>Newid gwasanaethau</li><li>Gweithio'n rhanbarthol</li></ul></td></tr>
<tr><td><u>Arweiniad</u><br><br>Y sefydliad iechyd i nodi:<ul><li>Y sefyllfa ariannol bresennol, y rhesymau dros unrhyw ddiffyg yr adroddir amdano, y rhagolygon ar gyfer yr alldro diwedd blwyddyn a'r camau adfer a ragwelir</li><li>Ysgogwyr y diffyg ariannol, os yw'n briodol</li><li>Y cynnydd yn erbyn y cynllun arbedion</li><li>Y cynnydd yn erbyn y cynlluniau gwerth a chynaliadwyedd</li><li>Y cynnydd yn erbyn y camau galluogi a'r cyflawniadau allweddol yn y cynllun a gymeradwywyd gan y Bwrdd</li><li>Pan fo sefydliad o dan fesurau uwchgyfeirio, rhowch drosolwg byr o oruchwyliaeth y Bwrdd a'r cynnydd</li><li>Trosolwg a'r cynnydd yn erbyn y cynllun gwasanaethau clinigol – sut y mae hyn yn ysgogi gwelliannau?</li><li>Trefniadau newid gwasanaethau sy'n parhau</li><li>Trosolwg o weithio'n rhanbarthol, a'r effaith a'r weledigaeth ar ei gyfer</li></ul></td></tr>
<tr><td><u>Tystiolaeth:</u></td></tr>
</table>

<table>
<tr><td><u>Gwella mynediad i bawb</u><ul><li>Gweithgarwch gofal a gynlluniwyd, canser a diagnostig</li><li>Gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan gynnwys llwybrau gofal gohiriedig</li><li>Iechyd meddwl</li><li>Ansawdd a diogelwch, profiad y claf ac adborth, gan gynnwys am y ddarpariaeth o ran y Gymraeg a chydraddoldeb</li></ul></td></tr>
</table>

| |
|---|
| Arweiniad<br><br>*Y sefydliad iechyd i nodi:*<br><br>Perfformiad<br><br>• Y sefyllfa bresennol a'r trywydd ar gyfer y targed 104 wythnos o ran yr holl lwybrau RTT a'r targed 52 wythnos o ran llwybrau cleifion allanol<br>• Y sefyllfa bresennol a'r trywydd ar gyfer y targed 8 wythnos o ran cael mynediad at brofion diagnostig<br>• Y sefyllfa bresennol a'r trywydd ar gyfer cyflawni'r targed o 75% ar gyfer llwybrau lle'r amheuir canser<br>• Y sefyllfa bresennol a'r trywydd ar gyfer trosglwyddiadau ambiwlans 45 munud, arosiadau o 4 a 12 awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys a lleihau oedi yn achos llwybrau gofal<br>• Y sefyllfa bresennol a'r trywydd ar gyfer mesurau iechyd meddwl oedolion a CAMHS<br><br>Tynnwch sylw at feysydd i'w gwella a'r disgwyliadau ar gyfer gwella yn ogystal â meysydd llwyddiant ac arferion da.<br><br>Ansawdd a diogelwch<br><br>• Y sefyllfa bresennol a'r trywydd yn erbyn y metrigau ansawdd a diogelwch<br>• Adroddiadau ac adborth diweddar gan reoleiddwyr gan gynnwys AGIC, Llais ac Archwilio Cymru ond heb fod yn gyfyngedig i'r cyrff hyn<br>• Effaith y system rheoli ansawdd wrth ysgogi gwelliannau<br>• Camau a gymerwyd gan y bwrdd yng ngoleuni gwasanaethau bregus sy'n wynebu heriau<br>• Trosolwg o brofiad y claf gan CIVICA<br>• Enghreifftiau o sut y mae adborth cleifion yn ysgogi newidiadau mewn gwasanaethau |
| Tystiolaeth: |

| |
|---|
| Paratoi gwasanaethau ar gyfer y dyfodol<br>• Gwella gwasanaethau iechyd menywod, mamolaeth ac iechyd meddwl<br>• Atal afiechyd yn fwy effeithiol<br>• Rhoi mwy o wasanaethau i mewn yn y gymuned<br>• Gwireddu potensial technoleg ddigidol ac arloesedd |
| Arweiniad<br><br>*Y sefydliad iechyd i nodi:*<br><br>• Y gwaith a wnaed yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Iechyd Menywod<br>• Sut y mae'r sefydliad yn dysgu o adolygiadau eraill yng Nghymru a'r DU i wella gwasanaethau mamolaeth, effaith y rhaglen cefnogi diogelwch mewn gofal mamolaeth a newyddenedigol, effaith y bartneriaeth lleisiau mamolaeth a newyddenedigol<br>• Gwaith a wnaed i sicrhau diogelwch cleifion mewnol mewn unedau iechyd meddwl ac i leihau'r amseroedd aros yn y gymuned |

- Y camau sydd ar y gweill i wella cyfraddau brechu, cefnogi rhoi'r gorau i smygu, colli pwysau ac atal a rheoli diabetes
- Sut y mae'r sefydliad yn cefnogi symud i ffwrdd o fodelau traddodiadol gofal sylfaenol
- Sut y mae offer digidol yn ysgogi dewis cleifion, hygyrchedd ac effeithlonrwydd?

Tystiolaeth:

Cryfhau'r ffordd yr ydym yn rhedeg y GIG

- Moderneiddio arweinyddiaeth a diwylliant
- Gwydnwch – recriwtio/cadw a llesiant staff

Arweiniad

*Y sefydliad iechyd i nodi:*

- Y strategaeth sydd ar waith ar waith i leihau dibyniaeth ar staff dros dro, asiantaeth a locwm
- Arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer olyniaeth
- Arweinyddiaeth glinigol
- Asesiad o'r diwylliant a'r camau gweithredu i gefnogi a mesur newid mewn diwylliant
- Unrhyw ailgynllunio sefydliadol a ddisgwylir
- Y camau a gymerwyd yn dilyn yr arolwg staff diweddaraf

Tystiolaeth:

Materion lleol y Bwrdd

Arweiniad

*Y sefydliad iechyd i nodi:*

- Unrhyw faterion lleol yr hoffech eu dwyn i sylw Gweinidogion Cymru

Tystiolaeth: